



Papur Gwybodaeth Manwl

Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed (VPR) Syria

Beth mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i gyhoeddi?

Cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Medi y dylai Prydain ailsefydlu hyd at 20,000 o ffoaduriaid o Syria yn ystod y pum mlynedd nesaf. Daw'r ffoaduriaid o wersylloedd yn y gwledydd sy'n cyd-ffinio â Syria gan ddefnyddio'r broses sydd wedi ennill ei phlwyf. Bydd UNHCR (Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig) yn atgyfeirio pobl at y cynllun. Bydd y Swyddfa Gartref a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Chymru i gytuno manylion y trefniadau i letya a chefnogi'r ffoaduriaid.

Cefndir

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio mewn partneriaeth gyda UNHCR i weithredu tair rhaglen adsefydlu. Mae'r rhaglenni hyn yn gweithredu yn ychwanegol ar y broses lloches arferol.

- Mae rhaglen diogelu Gateway yn cynnig llwybr ar hyd at 750 o ffoaduriaid i setlo yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.
- Cynllunwyd Mandate i adsefydlu ffoaduriaid unigol sydd ag aelod agos o'r teulu yn y Deyrnas Unedig sy'n barod i'w lletya.
- Lanswyd Cynllun Pobl Agored i Niwed Syria ym mis Ionawr 2014 ac mae'n targedu cefnogaeth i ffoaduriaid yn benodol ar sail eu bod yn agored i niwed. Cafodd 216 o bobl eu hadleoli i'r Deyrnas Unedig gan Gynllun VPR Syria rhwng mis Mawrth 2014 a diwedd mis Mehefin 2015 (y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd).

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n ehangu cynllun presennol Pobl Agored i Niwed Syria gyda'r bwriad o sefydlu hyd at 20,000 o Syriaid sydd angen eu diogelu yn ystod tymor y Senedd bresennol. Mae hyn yn ychwanegol at y rhai a adsefydlodd dan Gateway a Mandate a'r rhai sy'n derbyn diogeliad drwy weithdrefnau arferol lloches. Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio cymorth gan y gweinyddiaethau datganoledig i gysylltu ag awdurdodau lleol am gyfranogiad posibl yn y cynllun adsefydlu presennol gyda golwg at i lawer fwy o ffoaduriaid gyrraedd cyn diwedd y flwyddyn.



Cyd-destun Cymru

Nid yw Cymru'n cymryd rhan yn rhaglen Gateway ar hyn o bryd. Mewn ymateb i'r galw presennol ar Brydain i dderbyn mwy o ffoaduriaid agored i niwed o Syria, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Ffoaduriaid Syria. Caiff y tasglu ei gadeirio gan Lesley Griffiths, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, i arwain ar ddull gweithredu Cymru-gyfan drwy gydlynu gwaith pob sefydliad i sicrhau y caiff ffoaduriaid o Syria eu hadsefydlu yng Nghymru mor effeithiol ag sydd modd.

Ffurfiwyd Bwrdd Gweithrediadau sy'n dod ynghyd â chynghair o sefydliadau o bob rhan o'r sector i weithio'n lleol i ddynodi a darparu anghenion cefnogaeth.

Deallir fod nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cofrestru eu diddordeb i adsefydlu ffoaduriaid dan y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed. Caiff manylion hyn eu gweithio allan drwy Bartneriaeth Mudo Strategol Cymru sy'n cydlynu'r broses gydag awdurdodau lleol.

Sut mae'r rhaglen yn gweithio?

Caiff cynllun Pobl Agored i Niwed Syria ei dargedu at bobl sy'n byw mewn gwersylloedd ffoaduriaid yn y rhanbarth. Caiff y meini prawf dyngarol eu hehangu i gynnwys categorïau bregus eraill oedd yn flaenorol wedi eu hepgor. Bydd yn dal i barhau i ganolbwyntio ar y bobl fwyaf agored i niwed. Bydd y cynllun estynedig yn cynnwys rhai sydd eisoes wedi eu lleoli ac a gaiff eu lleoli dan y cynllun presennol. Mae ei ffocws ar helpu'r rhai sydd yn yr angen mwyaf ac mae'n rhoi blaenoriaeth i bobl sydd angen triniaeth feddygol frys, rhai sydd wedi goroesi artaith a thrais, a menywod a phlant mewn risg.

Nod y cynllun yw lleoli pobl fregus mor gyflym ag sydd modd yn yr ardaloedd gorau ar gyfer cyflawni eu hanghenion. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), awdurdodau lleol, UNHCR ac eraill i symleiddio a chyflymu'r ffordd y caiff teuluoedd ac unigolion eu prosesu drwy'r cynllun presennol ac i leihau unrhyw effeithiau ar gymunedau presennol. Caiff cost cefnogi'r ffoaduriaid yn eu blwyddyn gyntaf ym Mhrydain o wariant cymorth tramor. I sicrhau y gall awdurdodau lleol gynllunio ymlaen llaw a pharhau i ymateb, bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo gyda chostau yn y dyfodol.

Yn seiliedig ar y meini prawf gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae UNHCR yn dynodi ac yn cyflwyno achosion posibl i'w hystyried ar gyfer eu hystyried a sgrinio. Bydd teuluoedd a gaiff eu dethol yn dod yn uniongyrchol i'r Deyrnas Unedig gyda'u gwaith papur eisoes wedi'i drefnu.



Mae manylion pellach ar ddalen ffeithiau'r Swyddfa Gartref:

<http://www.local.gov.uk/documents/10180/11411/Home+Office+Syrian+Resettlement+Fact+Sheet/a2652cc-238a-4bd4-9c2a-ef23ef52662e>

Dywedodd y Swyddfa Gymreig y bydd yn ceisio sicrhau y caiff ffoaduriaid eu dosbarthu'n deg ar draws y wlad fel nad oes unrhyw awdurdod lleol unigol yn gorfod cario gormod o'r baich.

Beth yw statws y rhai sy'n cyrraedd dan gynllun Pobl Agored i Niwed Syria?

Rhoddir fisa diogelu dyngarol pum mlynedd i ffoaduriaid. Bydd hyn yn rhoi hawl iddynt gael mynediad i gyllid cyhoeddus, mynediad i'r farchnad lafur a phosibilrwydd aduniad teuluol. Bydd y cynllun yn parhau i redeg wrth ochr cynlluniau adsefydlu a gweithdrefnau lloches eraill. Mae ffoaduriaid sy'n cyrraedd yn ystod misoedd cyntaf y cynllun yn annhebyg o gynnwys plant ar eu pen eu hunain. Caiff plant ar eu pen eu hunain eu hailsefydlu drwy gynllun a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer eu hanghenion.

Beth ddylai awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn adsefydlu ffoaduriaid ei wneud?

Yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn aelod o'r Tasglu cydlynu strategol a bydd Partneriaeth Ymfudo Cymru yn cydlynu cynigion gan gynghorau. Dylai cynghorau sy'n cynnig cymorth gysylltu â Phartneriaeth Ymfudo Cymru fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar gyfer cofnod canolog. Gall unrhyw gymdeithas tai sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun gysylltu â'u cynghorau lleol.

Beth os nad yw ardal wedi adsefydlu ffoaduriaid o'r blaen?

Caiff awdurdodau lleol eu hannog i feddwl yn ofalus os oes ganddynt y seilwaith a'r rhwydweithiau cefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau gofal ac integreiddio priodol ar gyfer ffoaduriaid. Byddai'n werth siarad gydag ardaloedd sydd eisoes wedi adsefydlu ffoaduriaid i ddysgu arfer gorau. Gall Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru eich rhoi mewn cysylltiad.



Sut gall awdurdodau lleol ganfod mwy am broffiliau ac anghenion y ffoaduriaid y byddant yn eu croesawu?

Bydd pob achos yn wahanol ac mae'n anodd iawn cyffredinoli. Cyn gynted ag y bydd awdurdod lleol eisiau cymryd rhan, bydd y Swyddfa Gartref yn anfon gwybodaeth fanwl ar yr achosion unigol i'r atgyfeiriadau hyn. Os yw awdurdodau'n dymuno cyfansoddiad neilltuol o achosion, dylent nodi hyn a gwneir ymdrechion i baru achosion yn y modd gorau.

Pa gynigion help sydd eu hangen?

Cafodd 216 o bobl eu hadsefydlu yn y Deyrnas Unedig gan gynllun VPR Syria rhwng mis Mawrth 2014 a diwedd Mehefin 2015. Mae angen lledaenu sylweddol ar y trefniadau presennol er mwyn adsefydlu hyd at 20,000 o ffoaduriaid dros y pum mlynedd nesaf. Pan fydd y cynllun yn gweithio'n llawn, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd nifer o gannoedd o ffoaduriaid yn dod i'r wlad bob mis.

Mae'r Swyddfa Gartref a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Chymru i roi trefniadau ar waith i letya a chefnogi ffoaduriaid. Mae Partneriaethau Ymfudo Strategol Rhanbarthol yn arwain ar gydlynu cynigion cefnogaeth. Bydd y mathau o help a'r gefnogaeth sydd eu hangen yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r wlad a bydd y Partneriaethau Ymfudo Strategol yn medru rhoi cyngor ar anghenion lleol penodol. Mae'r mathau o gefnogaeth tai sy'n debygol o fod ei angen yn cynnwys:

- Tai dros dro - mae'n debygol y bydd angen canfod tai dros dro ychwanegol i gynnwys llety derbyn dechreuol a chyfleusterau i gefnogi'r nifer uwch o ffoaduriaid fydd yn cyrraedd.
- Mynediad i lety y gellir ei gynnig wedi'i ddodrefnu ar denantiaethau cyfnod sefydlog.
- Mynediad i lety sy'n fforddiadwy dan reolau presennol budd-daliadau (e.e. y cap budd-daliadau)

Yn ychwanegol at helpu i gyflawni anghenion llety, efallai y gall cymdeithasau tai hefyd gynnig cefnogaeth arall megis gweithio gyda chymunedau lleol neu gefnogi ffoaduriaid i gael mynediad i gyflogaeth. Mae Refugee Action wedi nodi'r hyn y mae'n credu y dylai rhaglen adsefydlu lwyddiannus ei gynnig; gall hyn helpu cymdeithasau tai i feddwl am gefnogaeth ychwanegol y gallent ei darparu. Mae Refugee Action yn nodi fod yn rhaid i raglen lwyddiannus:

- Ariannu'r holl gostau hanfodol megis iechyd, addysg, gofal cymunedol a dosbarthiadau Saesneg



- Darparu cefnogaeth ychwanegol i ffoaduriaid i'w galluogi i oresgyn profiadau trawmatig
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth gyda'r cymunedau lle bydd pobl yn adsefydlu
- Helpu ffoaduriaid i ddod yn annibynnol, yn neilltuoel drwy ganfod cyflogaeth
- Galluogi pobl leol i chwarae rhan wrth gefnogi ffoaduriaid, gyda hyfforddiant a chefnogaeth briodol.

Gyda phwy y dylem gysylltu?

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

Anne Hubbard, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Anne.hubbard@wlga.gov.uk

Rhannu Profiadau

Gwyddom fod llawer o gymdeithasau tai eisoes yn darparu tai a chefnogaeth i ffoaduriaid ac rydym eisiau helpu i rannu enghreifftiau o arfer da ar draws y sector. Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn clywed am unrhyw rwystrau y gallech fod wedi eu cael sy'n eich atal neu'n ei gwneud yn anos i chi gynnig cefnogaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn anfon gwybodaeth bellach neu astudiaeth achos, cysylltwch â Selina Moyo ar selina-moyo@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.

Rhai sefydliadau sydd eisoes yn cynnig cefnogaeth i ffoaduriaid yng Nghymru:

- Cyngor Ffoaduriaid Cymru - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/>
- OXFAM Cymru - <http://www.oxfam.org.uk/cymru/blog>
- Oasis - <http://oasiscardiff.org/meet-the-team/>
- Eglwys Gymunedol Bethel - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/what-we-do/build-partnerships/bethel-community-church>
- Y Groes Goch Brydeinig - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/what-we-do/build-partnerships/british-red-cross>
- Rhwydwaith Amddifadedd Cymru - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/what-we-do/build-partnerships/cardiff-destitution-network>
- Dinas Lloches - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/what-we-do/build-partnerships/city-of-sanctuary>



- DPiA - <http://welshrefugeecouncil.org.uk/what-we-do/build-partnerships/dpia>
- [Grŵp Cefnogwyr Ceiswyr Lloches Bae Abertawe](#)

Dolenni Defnyddiol

- Cyhoeddiadau'r Llywodraeth - <https://www.gov.uk/government/world/syria>
- Cymdeithas Llywodraeth Leol - <http://www.local.gov.uk/refugees>
- Blog CIH - [http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Syrian_refugees - what can social landlords do to help](http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Syrian_refugees_-_what_can_social_landlords_do_to_help)
- Cyhoeddiadau CIH - [http://www.cih.org/publication-free/display/vpathDCR/templatedata/cih/publication-free/data/Housing and migration A UK guide to issues and solutions](http://www.cih.org/publication-free/display/vpathDCR/templatedata/cih/publication-free/data/Housing_and_migration_A_UK_guide_to_issues_and_solutions)
- Gwefan Hawliau Tai - <http://www.housing-rights.info/index.php>

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru Hydref 2015